# PWYLLGOR PENODIADAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ionawr 2021

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T Ll Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws ac A M Jones |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Rheolwr Adnoddau Dynol (CW),<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol/Dirprwy Swyddog Monitro (RJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorydd R.Meirion Jones |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Dim |

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, 2020 i'w cadarnhau.

Mynegodd y Cynghorydd A M Jones nad oedd yn ystyried bod y cofnodion yn adlewyrchu'r drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, 2020.

Mynegodd y Cynghorydd K P Hughes ei ddiolch i'r Cynghorydd A M Jones am godi'r materion hyn.

Cyflwynodd y Cynghorydd Llinos M Hughes gynnig bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr, 2020 yn cael eu diwygio gan y Swyddog Pwyllgor a'u bod yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor hwn. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS.

**3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm."**

**4 PENODIADAU STAFF**

**Hysbysebu swydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr mewn perthynas â'r swydd uchod.

Cyfeiriodd y Cynghorydd K P Hughes at y disgrifiad swydd, gofynnodd gwestiynau a holodd am gadarnhad ar elfennau'r o'r cynnwys.

Holodd y Cynghorydd A M Jones am y broses ac am gyfnod hysbysebu'r swydd.

**PENDERFYNWYD y dylid hysbysebu'r swydd yn unol â'r disgrifiad swydd a'r manyleb person. Penderfynwyd hefyd y byddai'r hysbysebu yn cael ei wneud drwy wefan benodedig ac y byddai'r swydd yn cael ei hysbysebu am gyfnod o 3 wythnos yn unol â'r cyngor proffesiynol a gyflwynwyd gan y Swyddogion yn y cyfarfod. Nid oedd gofyniad i osod yr hysbyseb mewn unrhyw gyhoeddiadau.**

**CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**